

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**  
**Hysbysiad Preifatrwydd**  
**PROFIAD GWAITH**

Ysgrifennwyd yr hysbysiad hwn yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Da ta Cyffredinol a'r ddeddfwriaeth berthnasol

**Y Tîm Rheoli Gwybodaeth**

**Lisa Richards** – Swyddog Diogelu Data

**Sam Bishop** – Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful,  
CF47 8AN

Data.Protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol  
**MERTHYR TUDFUL**  
**MERTHYR TYDFIL**  
County Borough Council

Dyddiad Creu:	25 Mai 2019
Yr Adran sy'n Gyfrifol:	Adnoddau Dynol a Datblygiad
Y Rheolwr sy'n Gyfrifol:	Hannah Brown
Cyfeiriad:	CBSMT, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth ar sut y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn casglu ac yn prosesu data personol ar gyfer y rheini sydd, ar hyn o bryd yn derbyn profiad gwaith gan y sefydliad.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gyfrifol am benderfynu sut yr ydym yn cadw ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol sy'n cael ei gasglu gennym. Mae'n ofniad i ni, o dan y ddeddfwriaeth ddiogelu data i'ch hysbysu o'r wybodaeth a gynhwysir yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Nid yw'r hysbysiad hwn yn rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Gallwn ddiweddarau'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg ac os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn sicrhau fod copi wedi ei ddiweddarau ar gael i chi cyn gynted ag y bydd hynny'n bosibl.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd â'r Polisi Safonau Preifatrwydd a'r hysbysiad preifatrwydd llawn sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl o'r modd yr ydym yn prosesu data. Gellir dod o hyd iddo ar ein gwefan.

Mae'r Cyngor yn darparu profiad gwaith ar draws y sefydliad sy'n cynnig cyfle i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau mewn amgylchedd byd gwaith a chefnogi ein Datganiad Strategol.

Mae profiad gwaith sydd wedi ei gynllunio a'i drefnu'n dda yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad sgiliau cyflogadwyedd myfyrwyr, eu sgiliau personol a chymdeithasol ac yn eu helpu i ddysgu am fyd gwaith. Y nodyn allweddol ar gyfer lleoliadau profiad gwaith yw sicrhau eu bod yn 'ystyrlon.'

Profiad gwaith yw un o'r gweithgareddau pwysicaf sy'n cydgysylltu cyflogwyr a sefydliadau addysgol.

**1. GWYBODAETH BWYSIG A PHWY YDYM NI**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r rheolwr ac sy'n gyfrifol am eich data personol. Mae nifer o adrannau gwahanol yn rhan o'r Cyngor a gellir dod o hyd i fanylion amdanynt ar ein gwefan. Pan fyddwn yn sôn am yr adran, rydym yn cyfeirio at Dîm Datblygu'r Gweithlu sy'n gyfrifol am brosesu eich data ar gyfer y gwasanaethau y manylir arnynt yn yr hysbysiad preifatrwydd.

Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol i unigolion sydd ar hyn o bryd ar leoliad profiad gwaith neu'r rhai sydd wedi cyflwyno ffurflen gais i Dîm Datblygu'r Gweithlu sy'n cynnwys unrhyw unigolyn sydd yn hŷn na 14 oed.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi apwyntio Swyddog Diogelu Data. Gellir cysylltu ag ef drwy ddefnyddio'r manylion canlynol:

Mrs. Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad: Tîm Rheoli Gwybodaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

E-bost: [data.protection@merthyr.gov.uk](mailto:data.protection@merthyr.gov.uk)

Ffôn: 01685 725000

## 2. Y DATA YR YDYM YN EI GASGLU AMDANOCH

Efallai y byddwn yn casglu, defnyddio, storio ac yn trosglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch fel ag y ganlyn:

Disgrifwyr personol fel eich enw, oed, man geni, dyddiad geni, rhyw, cyfeiriad, gwybodaeth am eich perthynas agosaf, perthnasau â swyddogion eraill, delweddau, recordiadau CCTV

Rhifau adnabod gan gynnwys IP, cyfeiriad MAC, rhifau ffôn, Rhifau Yswiriant Cenedlaethol (YC,) rhifau cyfeirnod busnes, rhifau pasbort, rhifau trwydded yrru

Gwybodaeth gyflogaeth sy'n cynnwys ffeiliau'r cyflogai, hanes cyflogaeth, gwerthusiadau, cyfweliadau canolwyr, camau disgyblu

Manylion addysg fel os ydych mewn addysg ar hyn o bryd, hanes addysgol, canlyniadau arholiadau

Gwybodaeth am eich ffordd o fyw sy'n berthnasol i'ch cymeriad, eich enw da, ymddangosiad cyffredinol, statws ariannol, statws cymdeithasol, statws priodasol, nodweddion personol a gwybodaeth ddiwylliannol

Mae categorïau arbennig o ddata personol, sensitif sydd angen lefel ddiogelu uwch. Rydym yn casglu, storio ac yn defnyddio'r categorïau arbennig canlynol o wybodaeth personol amdanoch chi a'ch teulu:

Gwybodaeth bywyd sy'n ymwneud â'ch crefydd, daliadau gwleidyddol a chredoau, aelodaeth undeb llafur, safbwyntiau, sylwadau, bwriadau

Ethnigrwydd sy'n cynnwys hil, lliw, cefndir cenedlaethol neu ethnig

Cyfeiriadedd rhywiol er enghraifft os ydych yn Heterorywiol, Deurywiol neu'n

Gyfunrywiol ac ati.

Data iechyd sy'n gysylltiedig â'ch iechyd corfforol neu feddyliol, anabledau, hanes teuluol neu unigol, cofnodion deintyddol a meddygol, presgripsiynau, asesiad anghenion.

Gwybodaeth droseddol sy'n gysylltiedig ag unrhyw euogfarnau, cyhuddiadau, pardynau a gwybodaeth a dderbyniwyd gan wiriadau'r gwasanaeth datgelu a gwahardd (DBS.)

Rydym yn esbonio'r gwahanol ddulliau yr ydym yn eu defnyddio i gasglu'r data yma yn adran 3 o'r hysbysiad preifatrwydd hwn.

### **3. SUT RYDYM YN DEFNYDDIO'CH DATA**

Rydym yn derbyn eich data personol yn uniongyrchol oddi wrthyhych. Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais sy'n gofyn am beth o'r wybodaeth y manylir arni yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn. Byddwn yn cadw'ch cais sy'n cynnwys eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel ar ffeil electronig ar arbedwr ffeiliau CBSMT ac ar ein System Rheoli Dogfennau Electronig y gellir ei chyrru gan gyflogeion sydd â hawl mynediad penodol yn unig. Gwaredir copïau papur o'r cais yn ddiogel wedi i'r lleoliad ddod i ben neu cyn gynted â phosibl os na ellir dod o hyd i leoliad profiad gwaith ffafriol. Rhwch wybod i'r Adran os hoffech i'ch cais barhau ar ffeil am gyfnod hwy.

Mae angen eich data personol arnom er mwyn:

- sicrhau eich bod yn cwrdd â meini prawf y Rhaglen Profiad Gwaith
- dod o hyd i leoliad profiad gwaith ystyrlon ar eich cyfer (bydd yn golygu y gallwn rannu'ch gwybodaeth bersonol ag adrannau eraill o'r Cyngor er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth a chynnig lleoliad addas ar eich cyfer)
- cysylltu â chi a chynnig diweddariadau ynghylch cyfleoedd ar gyfer lleoliadau neu awgrymu cyfleoedd amgen os nad yw'ch dewis gwreiddiol ar gael
- efallai y bydd adrannau eraill o'r Cyngor am gysylltu â chi er mwyn trafod trefniadau'r lleoliad
- rhoi tystysgrif i chi ar ddiwedd lleoliad profiad gwaith llwyddiannus
- rhoi gwybod i chi am unrhyw gyfleoedd prentisiaeth
- cofnodi a chasglu data am y rhaglen profiad gwaith er mwyn monitro ein deilliannau a sicrhau ein bod yn cefnogi ein nodau strategol fel Awdurdod Lleol

Byddwn ond yn defnyddio'ch data personol pan fydd y ddeddfwriaeth ddiogelu data yn caniatáu i ni wneud hynny. Bydd hyn yn cynnwys y darpariaethau a nodir o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a lle'n berthnasol, Deddf Diogelu Data 2018. Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol yn yr amgylchiadau canlynol:

Rydym yn ddibynol ar eich caniatâd i gasglu a defnyddio'ch gwybodaeth bersonol. Bydd hyn yn cael ei nodi ar eich ffurflen gais ar gyfer profiad gwaith. Os ydych wedi cyflwyno ffurflen ac nad ydych am iddi gael ei hystyried, mwyach ar gyfer profiad gwaith gallwch dynnu'ch caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg. Unwaith y byddwn wedi derbyn cais i dynnu yn ôl, bydd eich cais yn cael ei ddifa. Bydd angen i chi ailgyflwyno

ffurflen gais er mwyn cael eich ystyried ar gyfer unrhyw leoliadau profiad gwaith arall yn y dyfodol.

Os bydd angen i ni gasglu gwybodaeth arbennig categori personol (o natur sensitif,) byddwn yn dibynnu ar resymau o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol (cydraddoldeb cyfle neu ymdriniaeth.) Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Gallwn hefyd brosesu eich data personol lle y mae'n angenrheidiol i ni wneud hynny er ein budd ein hunain (neu drydydd parti) lle nad yw'ch buddiannau neu'ch hawliau sylfaenol yn cael eu tanseilio.

#### **4. SUT RYDYM YN RHANNU'CH DATA PERSONOL**

Gallwn rannu eich data personol gyda'r Adran Adnoddau Dynol a'r Adran Ddatblygu er mwyn darparu'r cymorth sydd ei angen arnoch. Byddwn hefyd yn rhannu'ch data'n fewnol gydag Adrannau eraill fel y gellir datblygu rhaglen brofiad gwaith addas ar eich cyfer.

Os ydych ar hyn o bryd yn mynychu lleoliad astudiaeth mewn ysgol, goleg neu brifysgol gallwn hefyd rannu gwybodaeth ynghylch eich profiad gwaith gyda'r sefydliad hwnnw.

Ni fyddwn yn trosglwyddo'ch data i unrhyw wlad sydd y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop. Os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn rhoi gwybod i chi gyn gynted ag y bo modd a gallwch ddisgwyl i'ch gwybodaeth bersonol gael ei diogelu yn yr un modd.

#### **5. AM BA MOR HIR Y BYDDWN YN DEFNYDDIO'CH GWYBODAETH**

Byddwn ond yn cadw'ch gwybodaeth bersonol am gyn hired ag y sydd ei hangen er mwyn cyflawni'r diben y cafodd ei chasglu, gan gynnwys ar gyfer bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifo neu gofnodi. Bydd y wybodaeth bersonol a fydd yn cael ei chasglu yn unol â'r dull prosesu y manylir arno yn yr hysbysiad hwn yn cael ei chadw ar gyfer cyfnod y risg a fydd yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd. Gall pob sefydliad partner gael cyfnodau cadw gwahanol. Yn gyffredinol, bydd gwybodaeth ar ryw ffurf yn cael ei chadw am isafswm o 7 mlynedd o ddyddiad cau'r achos.

Mae manylion cyfnodau cadw gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol ar gael yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd i'w weld ar ein gwefan ([www.merthyr.gov.uk](http://www.merthyr.gov.uk)).

#### **6. SUT RYDYM YN CADW'CH GWYBODAETH YN DDIOGEL**

Rydym wedi gweithredu mesurau diogelwch addas er mwyn osgoi fod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei cholli'n ddamweiniol, ei defnyddio neu ei chyrru mewn unrhyw ddull anawdurdodedig, ei haddasu neu ei datgelu. Yn ychwanegol i hyn, rydym yn cyfyngu mynediad i'ch gwybodaeth bersonol i'r cyflogaion hynny sydd angen gwybod o ran busnes. Byddant ond yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn ôl ein cyfarwyddyd ac maent yn destun cyfrifoldeb cyfrinachedd.

Rydym wedi rhoi gweithdrefnau yn eu lle er mwyn ymdrin ag unrhyw dor diogelwch a ddrwgdybir a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr o unrhyw dor diogelwch a ddrwgdybir lle y bydd angen i ni wneud hynny'n gyfreithiol.

## **7. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL**

Mewn rhai amgylchiadau, mae gennych hawliau o dan gyfreithiau diogelu data sy'n ymwneud â'ch data personol, gan gynnwys yr hawl i dderbyn copi o'r data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch. Manylir ar yr hawliau yma yn yr hysbysiad preifatrwydd llawn. Mae gennych hefyd hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwylio materion diogelu data'r DU:

Cyfeiriad: Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), yr 2ail Lawr, Tŷ Churchill, Churchill Way, Caerdydd, CF10 2HH

E-bost: [casework@ico.org.uk](mailto:casework@ico.org.uk)

Ffôn: 0330 414 6421

## **8. MANYLION PELLACH**

Os ydych am ragor o wybodaeth ar sut yr ydym yn prosesu'ch gwybodaeth bersonol, gan gynnwys diogelu data, cadw data a hawliau'r unigolyn, edrychwch ar ein polisi preifatrwydd llawn. Gallwch hefyd gyrchu gwybodaeth, yn uniongyrchol o wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, [www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk).